Tachwedd 2026

Galwad am dystiolaeth: tâl gweithredol

Ofwat

Ynglŷn â'r ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gofyn am dystiolaeth a barn er mwyn deall sut y mae rhanddeiliaid yn credu y gall rheol gwahardd tâl gweithredol cysylltiedig â pherfformiad (PRP) Ofwat[1] gyflawni ei hamcanion craidd yn well, sef adfer ymddiriedaeth y cyhoedd yn y sector a chryfhau atebolrwydd uwch-arweinwyr. Mae hefyd yn gofyn sut y gall Ofwat liniaru'r risg y bydd cwmnïau dŵr yn tanseilio'r rheol.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer tâl gweithredol yn y sector dŵr ac effaith y rheol, ac yna'n gofyn nifer o gwestiynau sy'n seiliedig ar egwyddorion. Mae'r galwad am dystiolaeth hwn yn agored i bob rhanddeiliad, gan gynnwys cwsmeriaid, cwmnïau, sefydliadau anllywodraethol, buddsoddwyr, cyrff masnach a rheoleiddwyr. Bydd yn helpu i lywio ein hadolygiad carlam o'r rheol, a fydd yn penderfynu pa ddiwygiadau, os o gwbl, sydd eu hangen.

Rhaid cyflwyno ymatebion i'n galwad am dystiolaeth i Ofwat erbyn 10 Rhagfyr 2026.

[1] Rheol Gwahardd PRP, Mawrth 2026

Ymateb i'r galwad am dystiolaeth hwn

Rydym yn croesawu sylwadau ar y cwestiynau yn y galwad am dystiolaeth hwn,ac yn annog cyflwyno ymatebion drwy blatfform ein hymgynghoriad: https://consult.ofwat.gov.uk.

Fodd bynnag, gallwch hefyd ymateb drwy anfon e-bost at remunerationgovernancerules@ofwat.gov.uk neu lythyr at:

Call for evidence: executive pay
Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham
B5 4UA

Y dyddiad cau ar gyfer y galwad am dystiolaeth hwn yw **10 Rhagfyr 2026**. Os oes gennych gwestiynau am yr ymgynghoriad, cysylltwch â ni drwy remunerationgovernancerules@ofwat.gov.uk.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein, ar y platfform ymgynghori perthnasol. Yn amodol ar y canlynol, drwy ymateb i'r ymgynghoriad tybir eich bod yn cydsynio iddo gael ei gyhoeddi. Os credwch fod yna wybodaeth yn eich ymateb na ddylid ei datgelu (er enghraifft, am eich bod yn ei hystyried yn fasnachol sensitif), dylech nodi'r wybodaeth benodol ac egluro ym mhob achos pam na ddylid ei datgelu, a darparu fersiwn o'ch ymateb gyda'r wybodaeth honno wedi'i chuddio. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig neu gyffredinol, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn ddigonol. Byddwn yn ystyried eich cais wrth benderfynu pa wybodaeth i'w chyhoeddi. Fan leiaf, byddem yn disgwyl cyhoeddi enw pob sefydliad sy'n rhoi ymateb ysgrifenedig, hyd yn oed pan fo rhesymau dilys pam mae cynnwys yr ymatebion ysgrifenedig hynny'n parhau'n gyfrinachol. O ran data personol, mae gennych hawl i wrthwynebu cyhoeddi'r wybodaeth bersonol a ddatgelir gennych wrth gyflwyno eich ymateb (er enghraifft, eich enw neu fanylion cyswllt). Os nad ydych chi am i ni gyhoeddi gwybodaeth bersonol benodol a fyddai'n galluogi i chi gael eich adnabod, mae ein polisi preifatrwydd yn egluro ar ba sail y gallwch wrthwynebu ei phrosesu ac ynrhoi rhagor o wybodaeth am sut rydym yn prosesu data personol.

Yn ogystal â'n gallu i ddatgelu gwybodaeth yn unol â Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, gellir cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys data personol, yn unol â deddfwriaeth ar fynediad at wybodaeth – yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FoIA), Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR) a chyfreithiau diogelu dataperthnasol.

A fyddech cystal â bod yn ymwybodol fod Codau Ymarfer statudol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, sy'n ymdrin â rhwymedigaethau

cyfrinachedd, ymhlith pethau eraill. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu gwybodaeth rydych wedi gofyn i ni beidio ei datgelu, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd i chi y gallwn gynnal cyfrinachedd ar bob achlysur.

Cynnwys

1. Cyd-destun 5

2. Galwad am dystiolaeth – cwestiynau 9

3. Y camau nesaf 13

Atodiad: Rhestr o gwestiynau 14

1. Cyd-destun

Bwriad y galwad am dystiolaeth hwn yw deall sut y mae rhanddeiliaid yn credu y gall rheol gwahardd tâl gweithredol cysylltiedig â pherfformiad (PRP) Ofwat gyflawni ei hamcanion craidd yn well, sef adfer ymddiriedaeth y cyhoedd yn y sector a chryfhau atebolrwydd uwch-arweinwyr. Yn gysylltiedig â hyn, rydym hefyd am glywed barn ar sut y gall Ofwat liniaru'r risg y bydd cwmnïau dŵr yn tanseilio'r rheol, fel yr ydym wedi gweld yn digwydd ers cyflwyno'r rheol. Er mwyn casglu'r wybodaeth fwyaf defnyddiol i gefnogi'r amcanion hyn, rydym yn gyntaf wedi amlinellu cyd-destun ein gwaith ar PRP yn dilyn cyflwyno'r rheol gwahardd PRP.

Y rhesymeg dros y rheol gwahardd PRP

Mae PRP yn y sector dŵr, megis bonysau blynyddol, wedi bod yn destun llawer o graffu gan y cyhoedd y blynyddoedd diwethaf. Mae cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill wedi bod yn fwyfwy anfodlon wrth weld arweinwyr cwmnïau dŵr yn cael bonysau mewn cyfnod o ddirywiad cyffredinol mewn perfformiad a boddhad cwsmeriaid. Cyflwynodd Llywodraeth y DU ddeddfwriaeth newydd, sef Deddf Dŵr (Mesurau Arbennig) 2025[2], a roddodd bwerau gwneud rheolau newydd i Ofwat i wahardd PRP mewn rhai amgylchiadau. Yna, gwnaethom gyflwyno ein rheol gwahardd PRP ym mis Mehefin 2025[3].

Nod y rheol a'r ddeddfwriaeth oedd adfer ymddiriedaeth y cyhoedd yn y sector dŵr, a oedd wedi bod yn dirywio ers nifer o flynyddoedd. Roedd hyn yn rhannol oherwydd penderfyniadau ynghylch PRP yr oedd llawer o gwsmeriaid a rhanddeiliaid yn teimlo na ellid eu cyfiawnhau nac yn adlewyrchu methiannau difrifol cwmnïau dŵr mewn perfformiad, yn enwedig llygredd. Fodd bynnag, fel rheoleiddiwr economaidd cwmnïau dŵr yng Nghymru a Lloegr, roeddem hefyd yn cydnabod y gall PRP gymell arweinwyr i ganolbwyntio ar welliannau a all drawsnewid perfformiad, os caiff y tâl hwnnw ei strwythuro'n briodol i gymell canlyniadau gwell i gwsmeriaid a'r amgylchedd.

Pan gynigiwyd y rheol am y tro cyntaf, roeddem yn cydnabod bod pecynnau tâl cystadleuol yn bwysig er mwyn denu a chadw arweinwyr profiadol o safon uchel, yn enwedig mewn cwmnïau y mae angen iddynt wyrdroi perfformiad gwael. Rhaid iddi hefyd gynnal cymhellion cryf i sicrhau canlyniadau da i gwsmeriaid a'r amgylchedd, a pheidio â gwobrwyo perfformiad gwael. Cynlluniwyd y rheol i adlewyrchu'r cydbwysedd hwn rhwng cymell a gwahardd i adlewyrchu amgylchiadau lle dylid gostwng PRP i sero.

Effaith y rheol ers ei chyflwyno

Cyflwynodd Ofwat y Rheol Gwahardd PRP ym mis Mehefin 2025, ac mae wedi bod yn berthnasol i dâl gweithredol dros ddwy flwyddyn ariannol. O ganlyniad i'r rheol, mae cwmnïau

[2] Deddf Dŵr (Mesurau Arbennig) 2025
[3] Ofwat, Rheol gwahardd tâl gweithredol cysylltiedig â pherfformiad, Mehefin 2025 (diwygiwyd ym mis Mawrth 2026)

dŵr wedi gwahardd cyfanswm o dros £10 miliwn mewn bonysau posibl a fyddai wedi cael eu talu i'w prif swyddogion gweithredol a'u prif swyddogion ariannol. Dechreuodd sawl cwmni dŵr newid eu polisïau tâl yn fuan ar ôl gweithredu'r rheol. Creodd rhai cwmnïau daliadau newydd nad oeddent yn gysylltiedig â pherfformiad, a elwir yn 'daliadau cadw staff', a oedd y tu allan i gwmpas y rheol a'i diffiniad o dâl cysylltiedig â pherfformiad. Dewisodd cwmnïau eraill godi cyflogau sylfaenol eu cyfarwyddwyr gweithredol i lefelau llawer uwch na'r normau hanesyddol neu'r hyn a dalwyd i aelodau staff eraill. Rydym wedi archwilio hyn yn fanwl yn ein hadroddiad diweddar ar Reolau Tâl a Llywodraethu[4].

Efallai fod penderfyniadau o'r fath wedi rhoi'r argraff bod llawer o'r cwmnïau a sbardunodd y rheol yn ei thanseilio drwy ddisodli'r PRP oedd wedi'i wahardd â thâl sefydlog nad oedd yn gysylltiedig â pherfformiad. Yn ein barn ni, gall ymddygiad o'r fath gan gwmnïau, yn enwedig mor fuan ar ôl cyflwyno'r rheol, danseilio amcanion y rheol gwahardd PRP. Bwriad ein hadolygiad o'r rheol yw ystyried sut y gallwn leihau'r risg y bydd cwmnïau'n tanseilio amcanion y rheol, o fewn ein pwerau a'n dyletswyddau presennol.

Tueddiadau mewn tâl gweithredol yn y sector dŵr

Mae ymchwil gychwynnol Ofwat i ddatgeliadau cwmnïau dŵr ynghylch tâl gweithredol wedi dangos bod cyfanswm taliadau, a'r tâl cysylltiedig â pherfformiad, wedi newid yn sylweddol ers 2024-25, sef y flwyddyn y daeth y rheol i rym am y tro cyntaf. Mae Ffigur 1 yn dangos tueddiadau canolrifol ar gyfer cyfanswm tâl (sy'n cynnwys cyflogau, buddion a thaliadau am adael i swyddogion gweithredol sy'n gadael y busnes) a chyfanswm y PRP a dalwyd i'r prif swyddogion gweithredol a'r prif swyddogion ariannol, yn y drefn honno, ers 2020-21.

Mae hyn yn dangos bod canolrif cyfanswm tâl i brif swyddogion gweithredol a phrif swyddogion ariannol wedi aros yn weddol sefydlog dros y pum mlynedd, ar ôl gostyngiad rhwng 2021-22 a 2022-23 a oedd yn bennaf oherwydd blwyddyn bontio i sawl cwmni dŵr wrth i gyfarwyddwyr gweithredol newydd ymuno. Er hynny, gostyngodd canolrif PRP cyn gweithrediad y rheol, gan gyrraedd sero i brif swyddogion gweithredol yn 2025-26. Ar gyfer y flwyddyn adrodd ddiweddaraf, cynyddodd cyfanswm tâl prif swyddogion ariannol yn sylweddol yn 2025-26, tra gostyngodd ychydig i brif swyddogion gweithredol[5]. Serch hynny, mae'r ffaith nad yw cyfanswm tâl wedi gostwng yn gymesur â'r gostyngiad mewn PRP yn dangos bod swyddogion gweithredol yn cael tâl drwy ddulliau eraill nad oedd yn gysylltiedig â pherfformiad ac nad oedd o fewn cwmpas y rheol gwahardd PRP.


Fel y nodwyd yn ein hadroddiad ar Reolau Tâl a Llywodraethu, cyflwynodd sawl cwmni dŵr 'daliadau cadw staff' newydd a chynnydd sylweddol yng nghyflogau sylfaenol eu cyfarwyddwyr gweithredol yn ddiweddar. Ar hyn o bryd, mae gan chwe chwmni dŵr gynlluniau 'taliadau cadw staff' ar gyfer eu cyfarwyddwyr gweithredol, gyda rhai cynlluniau ar


[4] Ofwat, hadroddiad diweddar ar Reolau Tâl a Llywodraethu, Tachwedd 2026

[5] Nid data 2025-26 o reidrwydd yw'r ffigur tâl terfynol y bydd rhai cyfarwyddwyr gweithredol yn ei gael, gan nad ydynt eto'n cynnwys elfennau o PRP y penderfynir arnynt ar ôl y flwyddyn adrodd ac a ddatgelir ar ddiwedd 2026-27. Felly, gallai canolrif cyfanswm tâl a PRP fod yn uwch na'r hyn a ddangosir ar hyn o bryd.

gyfer cyfarwyddwr unigol yn werth dros £1 miliwn dros gyfnod o bum mlynedd. Cynyddodd nifer o'r un cwmnïau, a chwmnïau eraill, gyflogau sylfaenol y tu hwnt i'r normau hanesyddol hefyd, gan gynnwys rhai codiadau cyflog o dros 20%.

Ffigur 1: Canolrif cyfanswm y tâl a PRP a dalwyd i brif swyddogion gweithredol a phrif swyddogion ariannol cwmnïau dŵr (prisiau 2025-26)[6]





[6] Mae cyfanswm tâl yn cynnwys unrhyw daliadau cysylltiedig â grŵp, cyfansymiau cyfunol a dalwyd i swyddogion gweithredol sy'n gadael ac yn ymuno, a thaliadau am adael ac am golli swydd. Mae cyfanswm PRP yn cynnwys bonysau blynyddol, Cynlluniau Cymhelliant Hirdymor a thâl amrywiol arall cysylltiedig â pherfformiad. Mae'r data'n cynrychioli'r symiau yr adroddwyd eu bod wedi'u dyfarnu yn ystod y flwyddyn ariannol, gan gynnwys symiau sydd â chyfnod cadw neu ohirio ac nad ydynt wedi'u talu mewn gwirionedd eto. Daw'r data o'r adroddiadau blynyddol diweddaraf sydd ar gael gan yr un ar bymtheg o gwmnïau mwyaf sy'n darparu dŵr yn unig neu ddŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr.

Fel rydym yn egluro yn ein hasesiad ar gyfer 2025-26, mae'r defnydd cynyddol o ‘daliadau cadw staff’ a chodiadau cyflog sylfaenol, yn enwedig gan gwmnïau dŵr a sbardunodd y rheol, yn peri pryderon ynghylch a yw amcanion y rheol yn cael eu tanseilio. Er inni nodi hefyd fod llawer o gwmnïau dŵr wedi gwneud ymdrechion rhesymol i gyfiawnhau ac egluro'n dryloyw eu penderfyniadau i gynyddu cymaint ar gyflogau sylfaenol, roedd y cyfiawnhad a'r tryloywder hwn yn llai amlwg ymhlith cwmnïau a gyflwynodd ‘daliadau cadw staff’.

Dim ond ar lefel gyffredinol y mae'r dadansoddiad cychwynnol hwn o'r data yn archwilio tâl gweithredol. Er mwyn llywio ein hadolygiad o'r rheol, rydym yn bwriadu comisiynu rhagor o ymchwil yn y maes hwn i archwilio sut y mae'n cymharu â sectorau eraill a pha gasgliadau eraill y gellir eu tynnu o benderfyniadau'r sector ynghylch tâl.

2. Galwad am dystiolaeth – cwestiynau

Mae'r bennod hon yn nodi'r themâu a'r cwestiynau yr ydym yn ceisio adborth arnynt er mwyn llywio ein hadolygiad o'r rheol gwahardd PRP. Nid yw ein hamcanion craidd gwreiddiol ar gyfer y rheol wedi newid: adfer ymddiriedaeth y cyhoedd yn y sector a chryfhau atebolrwydd uwch-arweinwyr. Rydym am glywedbarn ynghylch a yw'r rheol yn adlewyrchu'r hyn y mae rhanddeiliaid yn ei ystyried yn egwyddorion craidd y dylid seilio tâl gweithredol arnynt. Bydd hyn hefyd yn helpu i lywio sut y gallem fynd i'r afael â'r risg y bydd cwmnïau'n tanseilio amcanion y rheol. Dylai ymatebwyr i'r galwad am dystiolaeth hwn sicrhau bod yr amcanion hyn yn sail i'w cyflwyniadau. Rydym hefyd yn gofyn i gyflwyniadau gynnwys tystiolaeth ategol lle bo modd, gan gynnwys tystiolaeth am effeithiau neu ganlyniadau disgwyliedig unrhyw ymyriadau arfaethedig.

Mae'r cwestiynau canlynol yn seiliedig ar egwyddorion wrth i ni geisio deall sut y gellir gwella'r rheol er mwyn cyflawni ein hamcanion a lleihau'r risg y bydd cwmnïau'n eu tanseilio. Bydd newidiadau i elfennau penodol o'r rheol yn cael eu hystyried yn ein hadolygiad yn ddiweddarach, ac ymgynghorir arnynt.

2.1 Lleihau’r risg o danseilio amcanion y rheol

Rydym am glywebarn ar sut y gellir tynhau'r rheol er mwyn lleihau'r risg y bydd cwmnïau'n tanseilio ei hamcanion craidd. Fel yr amlinellwyd yn y bennod flaenorol, mae ‘taliadau cadw staff’, codiadau gormodol mewn cyflogau sylfaenol a mathau eraill o dâl dewisol yn creu'r risg y bydd yn ymddangos bod y sector yn gwrthbwyso effaith y rheol. Er bod Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn rhoi pwerau i Ofwat bennu rheolau ehangach ar dâl, credwn hefyd fod ffyrdd o wella'r rheol bresennol er mwyn atal neu rwystro cwmnïau dŵr rhag gwneud penderfyniadau ynghylch tâl sy'n tanseilio'r rheol ac yn cael effaith niweidiol ar ymddiriedaeth y cyhoedd. Rydym yn croesawu barn a thystiolaeth ynghylch pa opsiynau posibl allai helpu i fynd i'r afael â'r risg hon. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys gwahardd ‘taliadau cadw staff’ pan fydd un o safonau'r rheol PRP wedi'i sbarduno, neu ei gwneud yn ofynnol i daliadau o'r fath fodloni meini prawf penodol er mwyn cael eu hystyried yn ddull gwirioneddol o gadw staff, yn hytrach na chael eu defnyddio i yn lle PRP a waharddwyd.

Cwestiynau

1. **Sut gellir gwella'r rheol er mwyn atal neu rwystro ymddygiad gan gwmnïau dŵr sy'n ei thanseilio? Er enghraifft, a ddylid gwahardd ‘taliadau cadw staff’ neu dâl sefydlog dros dro cyfatebol yn yr un modd â PRP? Eglurwch eich ateb.**

2.2 Egwyddorion tâl gweithredol

Er mwyn cefnogi ein hadolygiad, rydym am ddeall barn rhanddeiliaid ar sut y gall cwmnïau sicrhau fod eu penderfyniadau ynghylch tâl yn cyd-fynd yn ddigonol â buddiannau cwsmeriaid a'r amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys dulliau cwmnïau o ymdrin â gwahanol elfennau o dâl gweithredol (megis tâl amrywiol tymor byr a thymor hir, tâl sefydlog ac ati) a'r cyfrannau a briodolir iddynt yn y pecyn tâl cyffredinol.

Mae'r rheol bresennol yn canolbwyntio ar sicrhau bod cwmnïau'n gwahardd PRP pan fyddant wedi dangos y methiannau mwyaf difrifol y gall cwmni dŵr eu cyflawni, gan barhau i'w galluogi i gymell gwelliannau mewn perfformiad. Hyd yma, mae pob un o'r cwmnïau dŵr a charthffosiaeth presennol ac eithrio Hafren Dyfrdwy wedi sbarduno'r rheol o leiaf unwaith, gyda phump o'r cwmnïau hynny wedi'i sbarduno yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn bennaf, cafodd y rheol ei sbarduno oherwydd digwyddiadau llygredd categori 1 a/neu dorri dyletswydd gyffredinol y cwmni i ddarparu system garthffosiaeth o dan adran 94 Deddf 1991 (yn deillio o ymchwiliad parhaus Ofwat i weithrediad gweithfeydd trin carthion a rhwydweithiau carthffosiaeth ym mhob cwmni dŵr gwastraff mawr).

Dylai digwyddiadau llygredd categori 1 fod yn brin, ac mae'n siomedig bod cynifer o gwmnïau wedi sbarduno'r safon hon yn y rheol. Fodd bynnag, mae beirniaid yr elfen hon o'r rheol yn dadlau y gall un digwyddiad llygredd yn gynnar mewn blwyddyn ariannol olygu, i bob pwrpas, na ellir cynnig unrhyw gymhelliant ariannol i wella perfformiad am weddill y cyfnod. Yn yr un modd, mae llawer o randdeiliaid yn dadlau bod digwyddiadau categori 1, sef y lefel uchaf o lygredd niweidiol a gofnodir gan y rheoleiddwyr, yn gwbl annerbyniol ac y dylent olygu na thelir unrhyw fonysau, waeth beth fo'r perfformiad mewn meysydd eraill.

Roedd y ddeddfwriaeth a gyflwynwyd i roi pwerau i Ofwat wneud rheolau ar PRP yn seiliedig ar ymrwymiad y llywodraeth i ‘rwystro bonysau i swyddogion gweithredol cwmnïau sy'n llygru ein dyfrffyrdd’. Felly, credwn y dylai perfformiad yn ymwneud â llygredd fod yn rhan o'r rheol, ond rydym yn croesawubarn ynghylch a oes mesurau eraill o berfformiad yn ymwneud â llygredd y gellid eu defnyddio yn y rheol a fyddai'n dal i alluogi cwmnïau i gymell gwelliannau mewn perfformiad.

Beirniadaeth gyffredin arall o'r rheol yw y gall amharu ar allu cwmnïau dŵr sy'n gweld eu perfformiad yn dirywio neu'n gyson wael, yn enwedig o ran yr amgylchedd, i gymell a chadw arweinwyr dawnus er mwyn helpu i wyrdroi'r perfformiad hwnnw. Roeddem wedi ystyried y mater hwn wrth ddatblygu'r rheol i ddechrau ac wedi dod i'r casgliad bod safonau'r rheol yn gosod trothwyon perfformiad rhesymol ar gyfer gwahardd PRP ym mhob cwmni dŵr. Roeddem hefyd wedi cyflwyno eithriadau i'r rheol mewn perthynas â rhai safonau (e.e. atebolrwydd troseddol), a fyddai'n golygu na fyddai PRP cyfarwyddwyr gweithredol newydd eu recriwtio yn cael ei wahardd pe na baent yn eu swydd ar adeg y digwyddiad a sbardunodd y rheol, megis digwyddiad llygredd.

Serch hynny, rydym yn awyddus i glywed barn ar y mater hwn ac ynghylch a ddylai'r rheol ystyried trefniadau gwahanol ar gyfer cwmnïau y bydd angen amser arnynt i wyrdroi'r dirywiad mewn perfformiad. Yn benodol, rydym yn awyddus i ddeall sut y byddai hyn yn osgoi canlyniadau na fwriadwyd, megis rhoi'r argraff o 'wobrwyo methiant' neu greu cymhellion gwrthnysig i beidio â gwella perfformiad er mwyn elwa o drefniant o'r fath.

Cwestiynau

2. **Pa ddull all cwmnïau dŵr ei ddefnyddio i ddangos a sicrhau bod eu penderfyniadau ynghylch tâl yn cyd-fynd yn ddigonol â buddiannau cwsmeriaid a'r amgylchedd?**
3. **Sut ddylai cwmnïau dŵr fynd ati i bennu cyfrannau gwahanol elfennau o dâl, megis tâl amrywiol a thâl sefydlog?**
4. **A ydych yn credu bod y rheol yn mynd i'r afael yn ddigonol â pherfformiad yn ymwneud â llygredd, ac a oes ffyrdd eraill mwy effeithiol o wneud hynny?**
5. **A ddylai'r rheol drin cwmnïau sy'n perfformio'n wael sy'n gweithio i wyrdroi'r perfformiad hwnnw yn wahanol? Os felly, pa fesurau fyddai eu hangen i osgoi unrhyw ganlyniadau na fwriadwyd?**

2.3 Mwy o atebolrwydd am benderfyniadau ynghylch tâl

Rydym yn croesawu barn ar sut y gellir gwneud cwmnïau'n fwy atebol i'w cwsmeriaid am benderfyniadau ynghylch tâl gweithredol. Er mai'r cwmni dŵr ddylai fod yn gyfrifol yn y pen draw am wneud penderfyniadau yn hyn o beth, rydym yn ystyried a fyddai ymgysylltu'n agosach â defnyddwyr ynghylch polisïau a phenderfyniadau tâl yn helpu i adfer ymddiriedaeth y cyhoedd. Rydym yn ymwybodol bod rhai cwmnïau eisoes yn ymgysylltu â chynrychiolwyr defnyddwyr wrth lunio cardiau sgorio ar gyfer cynlluniau PRP, ac rydym am ddysgu sut y gellid ehangu'r math hwn o ymgysylltu.

Er enghraifft, mae Glas Cymru Holdings (cwmni daliannol Dŵr Cymru Welsh Water) yn cyflwyno ei Adroddiad ar Dâl Cyfarwyddwyr yn rheolaidd i'w aelodau annibynnol bleidleisio arno[7]. Pleidlais 'Gynghorol' nad yw'n rhwymol yw hon, ac nid oes rhwymedigaeth gyfreithiol ar Glas Cymru i weithredu arni, ond gellir ei defnyddio i 'ddangos anfodlonrwydd yr aelodau'. Mae gennym ddiddordeb mewn cael barn ynghylch a ellid ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr eraill fabwysiadu trefniadau tebyg. Ni fyddem yn rhagweld y byddai hyn mor ffurfiol â phleidlais, ond yn hytrach yn ofyniad i ymgynghori â defnyddwyr a/neu eu cynrychiolwyr a cheisio eu hadborth ar bolisi a phenderfyniadau arfaethedig y cwmni ynghylch tâl gweithredol. Gellid ategu hyn â gofynion adrodd i gyhoeddi'r adborth yn dryloyw ac egluro penderfyniad y cwmni yng ngoleuni'r safbwyntiau hynny. Rydym hefyd yn croesawu syniadau eraill ynghylch sut y gellir gwneud penderfyniadau o'r fath yn fwy atebol i'r cyhoedd.

[7] Polisi Aelodaeth ac Amodau Aelodaeth, Glas Cymru Holdings Cyfyngedig, Chwefror 2026

Cwestiynau

6. **A ddylid ymgynghori â defnyddwyr neu roi cyfle iddynt fynegi barn am bolisi a phenderfyniadau ynghylch tâl gweithredol? Eglurwch eich ateb.**
7. **A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill am ffyrdd y gall defnyddwyr wneud cwmnïau'n fwy atebol am eu polisi a'u penderfyniadau ynghylch tâl gweithredol?**

3. Y camau nesaf

Ar ôl i'r galwad am dystiolaeth hwn ddod i ben, rydym yn bwriadu ystyried pa ddiwygiadau i'r rheol, os o gwbl, sydd eu hangen, yn ogystal ag a ddylid cyflwyno unrhyw reolau newydd ynghylch tâl. Bydd y penderfyniadau hyn yn cael eu llywio gan y cyflwyniadau a ddaw i law drwy'r ymarfer hwn, ynghyd ag ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ac ymchwil bellach y byddwn yn ei chomisiynu ar dâl gweithredol.

Os byddwn yn cynnig unrhyw ddiwygiadau yn hyn o beth, byddwn yn ymgynghori arnynt. Byddwn hefyd yn ystyried cynlluniau'r llywodraeth yn y dyfodol i ddeddfu a diwygio'r sector dŵr, ac yn sicrhau bod y rheol yn cyd-fynd yn briodol â nhw. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i fonitro penderfyniadau cwmnïau dŵr ynghylch tâl gweithredol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â gofynion y rheol bresennol.

Atodiad: Rhestr o gwestiynau

Lleihau'r risg o danseilio amcanion y rheol

1. Sut gellir gwella'r rheol er mwyn atal neu rwystro ymddygiad gan gwmnïau dŵr sy'n ei thanseilio? Er enghraifft, a ddylid gwahardd 'taliadau cadw staff' neu dâl sefydlog dros dro cyfatebol yn yr un modd â PRP? Eglurwch eich ateb.

Egwyddorion tâl gweithredol

2. Pa ddull all cwmnïau dŵr ei ddefnyddio i ddangos a sicrhau bod eu penderfyniadau ynghylch tâl yn cyd-fynd yn ddigonol â buddiannau cwsmeriaid a'r amgylchedd?
3. Sut ddylai cwmnïau dŵr fynd ati i bennu cyfrannau gwahanol elfennau o dâl, megis tâl amrywiol a thâl sefydlog?
4. A ydych yn credu bod y rheol yn mynd i'r afael yn ddigonol â pherfformiad yn ymwneud â llygredd, ac a oes ffyrdd eraill mwy effeithiol o wneud hynny?
5. A ddylai'r rheol drin cwmnïau sy'n perfformio'n wael sy'n gweithio i wyrdroi'r perfformiad hwnnw yn wahanol? Os felly, pa fesurau fyddai eu hangen i osgoi unrhyw ganlyniadau na fwriadwyd?

Mwy o atebolrwydd am benderfyniadau ynghylch tâl

6. A ddylid ymgynghori â defnyddwyr neu roi cyfle iddynt fynegi barn am bolisi a phenderfyniadau ynghylch tâl gweithredol? Eglurwch eich ateb.
7. A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill am ffyrdd y gall defnyddwyr wneud cwmnïau'n fwy atebol am eu polisi a'u penderfyniadau ynghylch tâl gweithredol?

Mae Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yn adran llywodraeth anweinidogol. Rydym yn rheoleiddio'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA
Ffôn: 0121 644 7500

© Hawlfraint y Goron 2026

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch I nationalarchives.gov.uk/doc/open-governmentlicence/ version/3.

Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn www.ofwat.gov.uk.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn mailbox@ofwat.gov.uk.